

## Ymgysylltu Digidol ac Addysg

Owen Llywelyn: Rheolwr Estyn Allan a Chyfranogiad, [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw llyfrgell fwyaf Cymru ac mae ei chasgliad yn cynnwys llyfrau a phapurau newydd, ffotograffau, gweithiau celf, mapiau, ffilm, llawysgrifau, fideo ac archifau. Ers bron i ugain mlynedd mae'r Llyfrgell wedi bod yn digido eitemau o'r casgliad a'u cyhoeddi ar-lein.



Bydd y cyflwyniad hwn yn darparu amlinelliad o raglen a gyflwynwyd gan Wasanaeth Addysg y Llyfrgell er mwyn sicrhau bod y miliynau o eitemau electronig yn ei chasgliad yn hygyrch i athrawon, disgyblion ysgol a myfyrwyr Cymru. Bydd yn edrych ar:

- Deunyddiau dysgu digidol sy'n cael eu cyhoeddi ar [Hwb](#), storfa genedlaethol Llywodraeth Cymru o dros 100,000 o adnoddau dysgu dwyieithog sydd wedi bod drwy broses sicrwydd ansawdd.
- Adnoddau dysgu i ysgolion i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru a gynhyrchwyd ar y cyd ag Amgueddfa Cymru fel rhan o Brosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf.

- Gemau digidol sydd wedi cael eu comisiynu gan y Llyfrgell a rhai gynhyrchwyd gan staff y Llyfrgell.
- Sut mae'r Llyfrgell yn defnyddio technoleg sy'n bodoli eisoes fel Minecraft fel adnoddau dysgu.
- Deunyddiau dysgu digidol gynhyrchwyd gan ddisgyblion ysgol gynradd fel rhan o brosiectau oedd yn cael eu harwain gan y Llyfrgell.
- Mentrau unigol fel Cynllun Clipart y Llyfrgell i ddarparu adnoddau i athrawon a datblygu sgiliau llythrennedd digidol disgyblion.

Bydd y cyflwyniad hefyd yn edrych ar sut mae'r Llyfrgell yn mynd ati i sicrhau bod yr adnoddau dysgu digidol yn ateb gofynion y cwricwlwm yng Nghymru o ran cynnwys a sgiliau, y broses olygu sy'n sicrhau bod yr iaith, y tasgau a'r cynnwys yn addas i oedran y disgyblion, strategaethau i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, a pha adnoddau a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r deunyddiau.

**[Hwb: Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#)**

